**Papur Bwrdd (19)026**

**Papur Bwrdd i'w Nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 5 Gorffennaf 2019

---

| **Yn bresennol:** | **Yn cefnogi:** |
|---|---|
| Shan Morgan | Peter McDonald |
| Ellen Donovan | Lucy Corfield |
| Ann Keane | Sharon Cross |
| Jeff Farrar | Iona Hannagan Lewis |
| Gareth Lynn | |
| Andrew Goodall | |
| Tracey Burke | Ysgrifenyddiaeth: |
| Des Clifford | Charmain Watts |
| Natalie Pearson | |
| Gawain Evans | |
| David Richards | |
| Jeff Godfrey | |
| Gillian Baranski | |
| Charlotte Thomas | |
| Dean Medcraft | |
| James Owen | |
| Helena Bird | |

**Ymddiheuriadau:**
Andrew Slade
Peter Kennedy

### 1. Croeso

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod

**Papur Bwrdd (19)026**

## 1. Rhaglen ddatgarboneiddio ac 'argyfwng' y newid yn yr hinsawdd

1.1 Ymunodd Peter McDonald a Lucy Corfield â'r cyfarfod.

1.2 Amlinellodd Peter y sefyllfa bresennol, gan egluro bod datgarboneiddio Cymru yn effeithio ar bron pob agwedd ar ein gwlad a sut yr ydym yn ei llywodraethu. Byddai'n anodd cyflawni hyn beth bynnag fyddai'n digwydd, ond roedd yr her hyd yn oed yn fwy gan fod y dechnoleg a fyddai'n ei gwneud yn bosibl yn parhau i gael ei datblygu.

1.3 Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar allu Llywodraeth Cymru, a phwysleisiodd Peter McDonald bwysigrwydd sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru'r capasiti dadansoddol yn y tymor canolig. Hefyd amlinellodd y dull gweithredu presennol, sef rhoi cyfrifoldebau ar y timau polisi; prynu capasiti dadansoddol allanol; a cheisio arweiniad gan Gomisiwn y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd.

1.4 Croesawodd y Bwrdd y dull gweithredu hwn, gan gefnogi'r syniad o weithio ar y cyd â'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd i gael arweiniad a'r syniad o ymchwilio i'r posibilrwydd o benodi rhywun ar secondiad. Bu hefyd yn ystyried a fyddai'n bosibl i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru symud y gwaith dadansoddol yn ei flaen. Cytunodd Des Clifford i drafod hyn ymhellach â'r Prif Weinidog.

1.5 Roedd y Bwrdd yn cydnabod pa mor bwysig yw'r gwaith hwn i Weinidogion, a chynigiwyd y dylid ei drafod ymhellach mewn cyfarfod o Grŵp y Gweinidogion-Gwasanaeth Sifil yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU 1:** Ceisio cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gael rhywun ar secondiad.

**CAM GWEITHREDU 2:** Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i symud y gwaith dadansoddol yn ei flaen, ar ôl i Des Clifford drafod y cynnig â'r Prif Weinidog.

**CAM GWEITHREDU 3:** Ymchwilio i weld a fyddai'n bosibl trafod y Rhaglen Ddatgarboneidddio a'r 'argyfwng' newid hinsawdd mewn cyfarfod o Grŵp y Gweinidogion-Gwasanaeth Sifil yn y dyfodol.

## 2.

2.1 Soniodd Des Clifford am y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf a dywedodd y byddai'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar 24 Gorffennaf.

**Papur Bwrdd (19)026**

2.2 Dywedodd hefyd fod y risg o ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref yn parhau, gan egluro bod tri phosibilrwydd:

1. Ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref
2. Aros yn hirach yn yr UE cyn ymadael
3. Y DU yn aros yn yr UE yn barhaol

3.2 Eglurodd Des y byddai ymadael yn yr hydref yn achosi gwahanol broblemau i'r rhai a fyddai'n codi pe baem yn ymadael yn y gwanwyn, gan gynnwys warysau'n cael eu llenwi â nwyddau ar gyfer Calan Gaeaf a'r Nadolig, gan leihau'r lle a fyddai ar gael i storio cyflenwadau ar gyfer Brexit.

3.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr estyniad wedi rhoi'r cyfle inni ystyried y gwaith a oedd wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn, ac i fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd o wneud hynny. Dywedodd hefyd fod hyn yn rhoi amser i newid pwyslais a bwrw ymlaen â gwaith sydd wedi arafu oherwydd Brexit, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog.

3.4 Nododd y Bwrdd fod y risg o ymadael heb gytundeb yn parhau, a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y paratoadau yn dal ar waith.

## 3. Adroddiad Cyllid

3.1 Cyflwynodd Gawain Evans Adroddiad Cyllid a oedd yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mai 2019 (mis 2), sef adroddiad cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd yn cynnwys amcangyfrifon am ffigurau alldro yn erbyn Cyllideb Derfynol 2019-20, a gafodd ei chyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2018 a'i chymeradwyo gan y Cynulliad ar 16 Ionawr 2019.

3.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r prif faterion ariannol a oedd yn bodoli ar y pryd, fel yr oeddent wedi eu nodi gan Benaethiaid yn Llywodraeth Cymru.

3.3 Roedd y trafodaethau pellach yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Bwysau refeniw
- Pwysau cyfalaf
- Y sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn
- Y gyllideb DEL bresennol
- Cronfeydd wrth gefn DEL

3.4 Trafododd y Bwrdd refeniw trethi, gan ofyn i eitem gael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod ystyr pwerau treth. Dywedodd Gawain Evans ei fod yn cydweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru ar hyn.

**CAM GWEITHREDU 4:** Cynnwys eitem ar refeniw trethi ar yr agenda mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

3.5 Hefyd, rhoddodd Gawain yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru, gan ddweud eu bod wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn y dyddiad penodedig. Croesawodd y Bwrdd yr wybodaeth hon.

## 4. Adolygiad o'r Bwrdd – canlyniadau'r holiadur hunanasesu

4.1 Ymunodd Sharon Cross a Iona Hannagan Lewis â'r cyfarfod.

4.2 Amlinellodd Sharon y cefndir, gan egluro bod yn rhaid cynnal adolygiad blynyddol o'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Mai 2019 drwy ymarfer hunanasesu, a chafodd y canlyniadau eu crynhoi fel a ganlyn:

- Yn sgil cynnal yr ymarfer, roedd y Bwrdd o'r farn bod ganddo'r cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad; ei fod yn cael yr wybodaeth yr oedd ei hangen i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol, a'i fod yn cael cymorth effeithlon gan yr Ysgrifenyddiaeth. Roedd y Bwrdd yn credu ei fod yn gryf o ran ei lywodraethiant (yn enwedig mewn perthynas â chynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol); darparu goruchwyliaeth ariannol; ac ystyried materion corfforaethol a strategol.

- Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n teimlo bod y Bwrdd yn gryf o ran cynwysoldeb, yn yr ystyr ei fod yn cynnwys yr holl aelodau mewn cyfarfodydd, ac yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad yn ehangach; er ei fod yn cydnabod y gallai aelodaeth y Bwrdd fod yn fyw amrywiol.

- Nododd yr asesiad fod perthynas weithio gref rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo). Roedd y Bwrdd yn teimlo hefyd ei bod yn bwysig cydgysylltu agendâu'r Bwrdd ac agendâu ExCo yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cyfrannu ar yr adegau priodol.

- Roedd y meysydd eraill yr oedd angen eu datblygu yn cynnwys gwella dulliau o dracio'r camau gweithredu sy'n codi o drafodaethau'r Bwrdd; gwella'r wybodaeth o gyfarfodydd ExCo sy'n cael ei rhoi i Gyfarwyddwyr Anweithredol; ac adolygu strwythur yr agenda i ganiatáu rhagor o amser ar gyfer trafod materion corfforaethol allweddol. Bydd sesiynau datblygu'r Bwrdd yn cael eu trefnu'n seiliedig ar ganlyniadau'r hunanasesiad.

**Papur Bwrdd (19)026**

4.3 Trafododd y Bwrdd y canlyniadau ymhellach, gan gynnig y dylai'r Bwrdd geisio bod yn fwy gweladwy ar draws y sefydliad drwy wahodd sylwedyddion neu ffilmio sesiynau penodol. Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i KAS ystyried a ellid drafftio crynodeb ar wahân o sylwadau Cyfarwyddwyr Anweithredol, a chytunodd y Bwrdd y byddai aelodau cysgodol o'r Bwrdd hefyd yn cyfrannu at y gwaith o adolygu'r Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU 5:** Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i ffyrdd o wneud y Bwrdd yn fwy gweladwy.

**CAM GWEITHREDU 6:** KAS i ddrafftio crynodeb ar wahân o sylwadau gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, a chyfweld ag aelodau cysgodol o'r Bwrdd.

## 5. Adborth o’r gweithdy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

5.1 Rhoddodd Jeff Farrar y newyddion diweddaraf am y prosiect ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ar 20 Mehefin i brofi'r dull gweithredu a fyddai’n cael ei ddefnyddio (amlinelliad o'r model arfaethedig ar gyfer fframwaith perfformiad), a diffinio sut beth fyddai effeithiolrwydd o'i fesur yn erbyn elfennau'r fframwaith.

5.2 Eglurodd iddo dynnu ar ddeunydd sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau ei fod yn casglu'r holl ddeunydd perthnasol sy'n cael ei gadw ar draws yr holl Adrannau. Bydd gweithdy'n cael ei gynnal fis Gorffennaf er mwyn i Gyfarwyddwyr Grŵp gael y cyfle i brofi'r dull gweithredu hwn.

5.3 Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol ba mor bwysig oedd sicrhau ei bod yn bosibl mesur ein perfformiad, a diolchodd i Jeff Farrar am ei waith hyd yn hyn. Hefyd dywedodd fod ganddi ddiddordeb mewn dod i ran o'r gweithdy a fyddai'n cael ei gynnal ar 23 Gorffennaf.

**CAM GWEITHREDU 7:** Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r gweithdy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar 23 Gorffennaf.

## 6. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Eitemau'r Is-bwyllgor

6.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu'r polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, a oedd yn eitem o bwys yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd.

6.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n mynychu'r Pwyllgor ar gyfer Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yr wythnos nesaf i gyhoeddi'r uchelgais a'r camau nesaf. Roedd sesiwn herio wedi cael ei threfnu ar gyfer 16

Gorffennaf, a byddai papur yn cael ei ddychwelyd at y Bwrdd ar 13 Medi. Ar ôl hynny, byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn cytuno ar y dull gweithredu a'r camau nesaf. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol am ragor o wybodaeth am hyfforddi a datblygu, a recriwtio yn y Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg.

**CAM GWEITHREDU 8:** Natalie Pearson i ddarparu ystadegau ynglŷn â hyfforddi a datblygu yn y Gymraeg.

**CAM GWEITHREDU 9:** James Owen i ddarparu gwybodaeth am y polisi ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg.

6.3 Rhoddodd Ann Keane adborth o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan ddweud:

- bod y pwyllgor wedi cytuno ar ddull gweithredu mwy systematig ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- bod y cylch gorchwyl wedi cael ei adolygu, ac y byddai ar ei ffurf derfynol yn y cyfarfod nesaf.
- y byddai adroddiadau ar hynt y gwaith ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno a'u trafod yn y cyfarfod nesaf.
- bod casgliadau'r adroddiadau archwilio wedi cael eu trafod yn y cyfarfod diwethaf ochr yn ochr â thrafod proses ar gyfer sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu gan bob grŵp.

6.4 Hefyd, dywedodd Ann fod trefniadau wedi cael eu gwneud i Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru gyfarfod â Chyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth yr Alban i rannu dysgu, trafod blaenoriaethau/heriau, a chymharu modelau llywodraethu.

6.5 Rhoddodd Jeff Farrar drosolwg ar y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth. Roedd y trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf wedi canolbwyntio ar lywodraethiant, tâl, a gwobrwyo yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, yn ogystal â chynllunio ar gyfer olyniaeth. Hefyd, dywedodd y byddai'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn mynychu cyfarfodydd o fis Medi ymlaen.

6.6 Rhoddodd David Richards yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ddeddfwriaethol, gan grynhoi'r adroddiadau Statws Coch Melyn Gwyrdd ar Filiau'r Llywodraeth. Dywedodd fod y Prif Weinidog yn ystyried Bil ychwanegol a oedd yn ymwneud â Phartneriaeth Gymdeithasol. Trafododd y Bwrdd faterion llywodraethu a oedd yn ymwneud â Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a dywedodd David Richards y byddai unrhyw faterion neu benderfyniadau allweddol yn cael eu uwchgyfeirio at y Pwyllgor Gweithredol. Byddai'r

wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf yn parhau i gael ei chyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

**Y camau gweithredu sydd wedi codi yng nghyfarfod y Bwrdd**

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1:** Ceisio cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gael rhywun ar secondiad. | Peter McDonald | Yn aros i gael arweiniad gan dimau AD/Gweithrediadau o ran y posibilrwydd o gael pobl ar secondiad. |
| **CAM GWEITHREDU 2:** .Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i symud y gwaith dadansoddol yn ei flaen, ar ôl i Des Clifford drafod y cynnig â'r Prif Weinidog. | Des Clifford | Y sefyllfa ddiweddaraf: cafodd hyn ei ystyried gan y Prif Weinidog, ac yn y tymor byr roedd yn well ganddo ganolbwyntio ar y camau gweithredu ymarferol yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |
| **CAM GWEITHREDU 3:** Ymchwilio i weld a fyddai'n bosibl trafod y Rhaglen Ddatgarboneidddio a'r 'argyfwng' newid hinsawdd mewn cyfarfod o Grŵp y Gweinidogion-Gwasanaeth Sifil yn y dyfodol. | Peter McDonald/ yr Ysgrifenyddiaeth | |
| **CAM GWEITHREDU 4:** Cynnwys eitem ar refeniw trethi ar yr agenda mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y cyfodol. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Caiff ei gynnwys ar agenda mis Hydref |
| **CAM GWEITHREDU 5:** Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i ffyrdd o wneud y Bwrdd yn fwy gweladwy. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i broses |

**Papur Bwrdd (19)026**

| | | |
|---|---|---|
| | | ar gyfer gwahodd sylwedyddion. |
| **CAM GWEITHREDU 6:** KAS i ddrafftio crynodeb ar wahân o sylwadau gan Gyfarwyddwyr Anweithredol. | Sharon Cross | Wedi ei gau |
| **CAM GWEITHREDU 7:** Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r gweithdy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar 23 Gorffennaf. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Wedi ei gau |
| **CAM GWEITHREDU 8:** Natalie Pearson i ddarparu ystadegau ar hyfforddi a datblygu yn y Gymraeg. | Natalie Pearson | Wedi ei gau |
| **CAM GWEITHREDU 9:** James Owen i ddarparu gwybodaeth am y polisi ynglŷn â recriwtio siaradwyr Cymraeg. | James Owen | Wedi ei gau |

**Camau gweithredu wedi eu dwyn ymlaen o 17 Mai 2019**

| **CAM GWEITHREDU** | **Y SWYDDOG ARWEINIOL** | **Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| **Cam gweithredu 1:** Sefydlu grŵp polisi ac ymgynghori'n eang ar draws y sefydliad wrth i bolisi gael ei ddatblygu, fel bod unrhyw newid i bolisi yn cael ei werthuso a'i herio'n llawn. Dylid cynnwys ochr yr Undebau Llafur yn y trafodaethau hynny. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Yn mynd rhagddo – cynhelir sesiwn herio ar 16 Gorffennaf ar y polisi mewnol ar y Gymraeg. |
| **Cam gweithredu 2:** Ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg fel modd o gefnogi gweithio dwyieithog yn y sefydliad. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Cafodd ffrwd waith ei sefydlu i arwain y gwaith o ymchwilio i dechnoleg fel modd o hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Cyfarfu'r ffrwd waith, a arweinir gan Dr Jeremy Evas o Is-adran y Gymraeg yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, am y tro cyntaf ar 29 Awst. |
| **Cam gweithredu 3:** Defnyddio theori newid ymddygiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Mae Natalie Pearson yn arwain ffrwd waith sy'n ystyried sut y gallai arweinyddiaeth, negeseuon clir, darbwyllo pobl, a newid agweddau, helpu i weithredu'r polisi. Cynhaliodd y ffrwd waith ei chyfarfod cyntaf ar 3 Medi. |
| **Cam gweithredu 4:** Sicrhau bod arweinyddiaeth gref a gweladwy yn ganolog i ddatblygu'r polisi. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio Bwrdd y Rhaglen a sefydlwyd i lywio'r gwaith hwn, a bydd yn chwarae rhan ganolog o ran cyfathrebu'r datblygiadau diweddaraf yn y gwaith hwn i'r staff. Ar ôl datblygu polisi, gwneir cais i'r Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Caiff ei ystyried hefyd gan Bwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru fis Tachwedd. |
| **Cam gweithredu 5:** Ystyried polisi yn y tymor hirach, gyda cherrig milltir graddol a fydd yn caniatáu ar gyfer cyfnodau saib ac ystyried, i ganiatáu ar gyfer gwerthuso ymyriadau a | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Yn ystod yr wythnosau nesaf, caiff casgliadau cychwynnol y ffrydiau gwaith eu |

| | | |
|---|---|---|
| chytuno ar amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf. | | datblygu'n rhaglen waith ar gyfer y pum mlynedd gyntaf. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth sylweddol i'r tymor hir, gyda chydweithwyr yn KAS yn arwain y gwaith o fodelu data er mwyn datblygu trywydd hyd at 2050, er mwyn inni allu ystyried yr ymyriadau y bydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y tymor hir. |
| **Cam gweithredu 6:** Ailwerthuso'r hyfforddiant yn y Gymraeg sy'n cael ei gynnig i staff. | Natalie Pearson /Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Rydym wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'n cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg, ac mae'r ffrwd waith newydd, ar gyfer dysgu a datblygu yn y Gymraeg, wedi cyfarfod, ac mae wedi cytuno ar gam gweithredu i gefnogi'r weledigaeth a'r cerrig milltir cyffredinol drwy wella'r ddarpariaeth dysgu a datblygu. |
| **Cam gweithredu 7:** Papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol yn ymateb i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn. | Dylan Hughes/ Bethan Griffiths | Ar yr agenda ar gyfer 13 Medi |